## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 22 Mehefin 2004

## Cynigion a Gyflwynwyd ar 15 Mehefin 2004

**NDM1998 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu:

1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2003-4, yn cael ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 17 i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad, o dan y pwer o dan Adran 79 (1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i benderfynu ynghylch apelau a wnaed o dan Adran 78 o'r Ddeddf a'r pwerau o dan Adran 13(1) o Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992, i benderfynu gwneud neu beidio â gwneud Gorchmynion y cyflwynir cais amdanynt o dan Adran 6 o Ddeddf 1992 wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad a byddant yn cael eu harfer yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn Rheol Sefydlog 17 a bod swyddogaethau'r Cynulliad o ran hynny yn cael eu dirprwyo i'r pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Alun Ffred Jones AC
Tamsin Dunwoody Kneafsey AC
Jeff Cuthbert AC
Brynle Williams AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 16 Gorffennaf 2004, pa un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r cyfryw faterion, yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

<u>Atodlen</u>

a) Apêl gynllunio gan Walters Mining Ltd ar gyfer y bwriad i adfer tir diffaith ynghyd â thynnu, prosesu a gwerthu glo a thywodfaen yn Winch Fawr West, Winch Fawr Road, Heolgerrig, Merthyr Tudful.

b) Gorchymyn Traethell Scarweather ar gyfer adeiladu fferm wynt ar y môr a gwaith cysylltiedig yn Nhraethell Scarweather ym Mae Abertawe oddi ar Bort Talbot a Phorthcawl.

**NDM1999 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2004.

**NDM2000 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad Y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mehefin 2004 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004, a

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004 yn cael ei wneud yn unol â:
a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2004; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2004.

**NDM2001 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2004.

**NDM2002 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad Y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mehefin 2004 mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynigion Trafnidiaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004, a

2. Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2004; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2004.

**NDM2003 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi datblygiad Llywodraeth y Cynulliad o strategaeth ar losgi bwriadol i Gymru gyfan, fel rhan o'i hymrwymiad i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol;

2. yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael â phroblemau llosgi bwriadol;

3. yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarperid i fynd i'r afael â llosgi bwriadol yn lleol ac ar draws Cymru.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 17 Mehefin 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau a ganlyn i gynigion:

**NDM2003**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i feithrin cydweithio agosach rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân er mwyn dod o hyd i achosion o losgi bwriadol ac er mwyn dal ac erlyn y sawl sy'n cynnau'r tanau.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

yn cydnabod yr ymrwymiad i ddatblygu strategaeth ar losgi bwriadol ar gyfer Cymru gyfan.'

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod y dewrder, y proffesiynoldeb a'r medr a ddangosir gan aelodau ein Gwasanaethau Tân ac Achub.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu'r ymwneud â'r Sector Annibynnol o ran y cynllun Cw^n Synhwyro Tanau Bwriadol.